PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 424 | Rhagfyr 2019



Prysurdeb Ysgol Pen-llwyn t.19



Cwis Nadolig t.13



Gorsaf Bow Street t.11

# Dathlu!




Parti Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau



Trip Cylch Meithrin Pen-llwyn i Barc Fferm Ffantasi, Llanrhystud




Gruff Lewis yn ennill Pencampwriaeth Cyclo-cross Cymru yn y Fenni - gw. t.7




Ben Lake yn annerch ar ôl y canlyniad - gweler t.5

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr** Deunydd i law: Ionawr 3
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 15

**RHAGFYR 14 - IONAWR 4** Gŵyl Coeden Nadolig yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch 2-7pm

**RHAGFYR 19** Nos Iau Plygain draddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan am 7.00

**RHAGFYR 20** Dydd Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig yng Nghapel Bethel, Aberystwyth am 10.30

**2020**
**IONAWR 15** Nos Fercher Alun Davies Ar drywydd llofrudd Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**IONAWR 17** Nos Wener 'John Davies, Tahiti' gan y Parch Watcyn James. Cymdeithas y Garn yn Festri'r Garn am 7.30. Sylwer ar y newid dyddiad

**IONAWR 22** Nos Fercher Gyrfa chwist yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.00.

**CHWEFROR 17-18** Nosweithiau Llun a Mawrth Frân Wen yn cyflwyno Llyfr glas Nebo (Manon Steffan Ros) yn Theatr y Werin am 7.30. Sylwer ar y newid dyddiad

**CHWEFROR 21** Nos Wener Noson yng nghwmni Rhiain Bebb. Cymdeithas y Garn yn Festri'r Garn am 7.30.

**MAWRTH 1** Prynhawn Sul Te Cymreig yn Neuadd y Penrhyn gydag eitemau gan blant Ysgol Penrhyn-coch. Trefnir gan bwyllgor Trefeurig Eisteddfod 2020.



## Nadolig llawen


Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f 'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu'r arian – eleni i GISDA (Grwp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon)..

**Rhoddion**
Diolch yn fawr i;
Marian Jenkins **£15**; Lila Piette **£15**
Y ddwy wedi rhoi eu gwobr o'r Cyfeillion yn ôl i gronfa Y Tincer.

## Cystadleuaeth ysgrifennu stori Nadolig i blant blynyddoedd 5 a 6.

Mae gan *y Tincer* gystadleuaeth ysgrifennu stori Nadolig i blant blynyddoedd 5 a 6. Y beirniad fydd Menna Beaufort Jones. Diolch i siop Inc am docynnau llyfr yn wobrau - 1af £15, 2il £10 3ydd £5.

Beth am fynd ati ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a gyrru eich stori gydag enw ac enw ysgol neu gyfeiriad cartref i'r Golygydd d/o Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu i Ytincer@gmail.com cyn dydd Llun 6 IONAWR 2020. Nadolig llawen a hwyl ar yr ysgrifennu!




Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2019

**£25** (Rhif 125 ) John Griffiths, Fron Wen, Penegoes
**£15** (Rhif 20) Richard Wyn Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 218) Kathleen Lewis, Llys Alban, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher, Tachwedd 20. Cofiwch ei bod yn amser ail ymaelodi gyda'r Cyfeillion erbyn Ionawr 1, 2020.


GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906




STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk


## 30 MLYNEDD YN ÔL



Aelodau Clwb Ymddeolwyr Llangorwen a'r cylch yn dathlu pen blwydd y mudiad yn 10 oed. Llun : Hugh Jones (O *Dincer* Rhagfyr 1989)

**Cronfa Leol**

Annwyl bawb,

Dyma ddarn o newyddion da i rannu gyda chi. Dim ond ychydig dros flwyddyn ers i'r ymdrechion codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol gychwyn yng Ngheredigion, mae'r targed o £330,000 i'r Gronfa Leol wedi ei gyrraedd. Hwre! A diolch i bawb a fwrodd ati gyda'r fath fwrlwm a threfn i gynnal gweithgareddau ac i gyfrannu.

Adroddwyd y newyddion hyn i'r Pwyllgor Gwaith lleol yn ddiweddar gyda phawb yn ganmoliaethus o'r ymdrech arwrol ac effeithiol yma. Mae ambell gronfa ardal heb gyrraedd eu targed unigol eto ac, wrth gwrs, mae nifer o weithgareddau dal ar y gweill. Mae'r Pwyllgor Gwaith lleol yn hyderus felly y gallwn aneulu tu hwnt i'r targed gwreiddiol. Penderfynwyd y gallwn yn rhesymol anelu at godi £400,000 erbyn Awst 2020 er mwyn sicrhau yr Eisteddfod mwyaf llwyddiannus posib. Gyda'r arian ychwanegol yma 'rydym wedi cytuno gyda swyddogion yr Eisteddfod y byddant yn ei flaenoriaethu ar ddatblygu Pentref Gwledig newydd ar y Maes i hyrwyddo cefn gwlad, Pentref Siarad Cymraeg i hwyluso profiad dysgwyr y Gymraeg a gwariant ar adnoddau newydd i'r Maes i wella cyfleusterau eistedd, cysgodi ac hamddena.

Ni fyddwn yn gosod targedau newydd i ardaloedd lleol. Ein bwriad yn unig yw i annog pawb i ddal ati i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r Eisteddfod ac i godi rhywfaint o arian hefyd wrth wneud hynny. Nid ydym am i'r bwrlwm a'r gweithgaredd ddod i ben a 'rydym yn awyddus iawn i ddenu diddordeb gymaint â phosib o bobol Ceredigion i ymddiddori a chyfrannu i'r Eisteddfod. Gallwn greu Eisteddfod i'w chofio yn Nhregaron 2020.

Gyda diolch am bopeth a gyflawnwyd hyd yma a phopeth sydd eto i ddod.

Elin Jones
ar ran Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020

Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**



# Y BORTH

**Arddangosfa Brain y Borth**
Mae arddangosfa o waith celf newydd gan yr artist lleol Muriel Delahaye wedi agor yn siop 2 London Place yn y Borth. Yr ysbrydoliaeth y tu cefn i'r casgliad newydd yw 'Brain y Borth' sef menywod y pentre fyddai'n cerdded ers talwm yn eu dillad du ar hyd y clogwyni i Aberystwyth er mwyn gwerthu eu basgedi o sgadan. Mae'r lluniau i'w gweld yn 2 London Place rhwng 10yb-4yp ddydd Mercher i ddydd Sadwrn tan 31 Rhagfyr.

Yn enedigol o Ogledd Lloegr, mae Muriel wedi byw yn y Borth ers dros 40 o flynyddoedd ac mae'r traeth a'r môr yn elfennau annatod o'u gwaith celf. Yn 2018 fe gyhoeddodd ddetholiad o ddyddiaduron ei mam, a fu'n athrawes gartref i rai o deuluoedd mawr Rwsia adeg y chwyldro ychydig dros ganrif yn ôl.

Mae'r gyfrol *Miss Daisy's Secret Russian Diary 1916-1918* yn nodi sut y bu i'w mam gwrdd â rhai o gymeriadau blaenllaw'r cyfnod gan gynnwys Rasputin, Lenin a Trotsky yn ogystal â'r Tsarina a'u merched.

Am fwy o fanylion gweler Facebook ac Instagram 2londonplaceborth neu'r wefan www.2londonplace.co.uk neu gellir cysylltu â sadie@2londonplace.co.uk

**Pen-blwydd hapus**
Pen-blwydd hapus iawn yn 80 oed ar 18 Rhagfyr i Derrick Davies, Elidir, y Borth. Mae Derrick ('Del') i'w weld yn aml yn cerdded drwy'r pentre, a does dim yn well ganddo na chael sgwrs efo hwn a'r llall a rhoi'r byd yn ei le. Daw'r dymuniadau da a'r cofion oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau i gyd.

**Canolfan newydd i'r celfyddydau yn y Borth**
Mae gan Y Borth ganolfan gelfyddydol newydd ar gyfer y gymuned. Fe agorodd 'Star of the Sea' ei drysau am y tro cyntaf yn ystod yr haf, gyda noson o gerddoriaeth fyw.

Ers hynny, mae tri digwyddiad arall wedi'u cynnal. Roedd y ganolfan yn un o'r lleoliadau a ddefnyddiwyd ar gyfer perfformiad 'Borth Begins' ym mis Awst; cynhaliwyd twmpath ym mis Tachwedd ochr yn ochr â set gan y band lleol Chocolat, ac fe gafwyd noson o leisiau lleol yn canu'n ddigyfeiliant ym mis Rhagfyr gan gynnwys perfformiadau gan Gôr y Gors a Machapela.

Mae'r ganolfan wedi agor yn yr adeilad a fu'n gartref i Gapel Presbyteraidd Soar o 1876 tan 1964. Rhwng 1969 - 2016 , yr adeilad oedd addoldy'r Eglwys Gatholig 'Our Lady Star of the Sea'. Pan gaeodd yr Eglwys Gatholig bu'r adeilad, sydd ar y lôn yn arwain at yr Animalarium, yn wag am sawl blwyddyn.

Cafodd ei brynu ym mis Hydref 2018 gan griw o bobl leol oedd yn awyddus i greu canolfan gymunedol ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol. Mae Oliver Kynaston, sy'n byw yn y Borth, yn un o'r trefnwyr.

"Ein nod yw creu canolfan lle mae'r gymuned leol yn gallu dod i fwynhau digwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol gyda phwyslais ar amlygu talent leol a rhannu profiadau a gwybodaeth," meddai Oliver, sy'n gerddor ac yn ymgynghorydd ym maes ynni adnewyddol.





"Rydym wedi ymgynghori'n eang gyda phobl y cylch er mwyn gweld beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn digwydd yn yr adeilad. Y tri phrif elfen oedd cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel, oriel ar gyfer arddangos gwaith gan artistiaid lleol a chenedlaethol, a gofod addysg gyda chyfleoedd ar gyfer dysgu ac addysgu."

Mae gwirfoddolwyr wedi bod wrthi'n ddiwyd yn trwsio a phaentio'r adeilad ond mae tipyn o waith adnewyddu i'w wneud eto ac mae ceisiadau am gymhorthdal o gronfeydd cymunedol a chelfyddydol yn cael eu llunio ar hyn o bryd.

Caiff newyddion a manylion am ddigwyddiadau'r ganolfan eu cyhoeddi ar dudalen Facebook Star of the Sea www.facebook.com/StarBorth

**Cymdeithas Henoed y Borth**
Taith bws i Gorris a Melin Meirion ar 12 Medi oedd y cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf. Er nad oedd y tywydd gwlyb yn ffafriol o ran cynnig golygfeydd, roedd yr aelodau wedi mwynhau eu diwrnod allan.

Ar 26 Medi, cafodd nifer o aelodau gymorth gan Betty, Pat ac Yvette i ddiweddaru eu tocynnau bws. Cafwyd cyngor hefyd ar sut y gallai aelodau wneud hynny eu hunain drwy fynd ar-lein neu trwy wneud cais am gopi papur. Mae modd llenwi ffurflen y cyfrifiad ar-lein hefyd neu anfon cais am ddogfen argraffedig. Cynhaliwyd raffl arbennig er budd Cymorth Canser Macmillan ac, ynghyd â stondin sborion, cacennau cartref a rhoddion, fe lwyddodd y grŵp i godi £312 i'r elusen.

Jane Leggett o'r Groes Goch oedd ein siaradwr gwadd ar 10 Hydref. 'Cymorth Cyntaf Bob Dydd' oedd testun sgwrs Jane, a ganolbwyntiodd y tro hwn ar CPR a defnyddio diffibriliwr. Atgoffwyd yr aelodau am y clinigau ffliw yn Neuadd y Borth, y pantomeim ym mis Ionawr a'r trip siopa Nadolig i Gaer. Roedd Anna Williams wedi gwneud cacennau i aelodau eu mwynhau gyda'u te a hynny fel arwydd o ddiolch am y cyfraniad tuag at ei thaith gyda'r Sgowtiaid i'r jambori yn yr Unol Daleithiau yn ystod yr haf.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ym mis Hydref ar y 24ain pan wnaethom ni groesawu Erwyd Howells a roddodd sgwrs ddifyr a diddorol ar hanes offer fferm. Yn y cyfarfod hwn hefyd, clywodd yr aelodau ein bod wedi derbyn rhodd hael iawn gan Bwyllgor y Carnifal yn eu noson gyflwyno arbennig a gynhaliwyd 19 Hydref.

Yn ystod cyfarfod 7 Tachwedd, trafodwyd y trefniadau ar gyfer y daith siopa Nadolig

i Gaer ar 21 Tachwedd, y te Nadolig ar 5 Rhagfyr, y Ffair Elusennau yn Neuadd y Borth ar 7 Rhagfyr, y cinio Nadolig yn Llety Parc ar 12 Rhagfyr a'r Panto yn Aberystwyth ar 11 Ionawr. Roeddem yn falch o groesawu David Lloyd Roberts o Ystadegau Cymru a fu, gydag Yvette, yn cynorthwyo aelodau i gwblhau ffurflen y cyfrifiad ar-lein. Yn hwyrach, cafwyd cyflwyniad ymarferol gan Joan Evans ar greu torchau ac addurniadau blodau ar gyfer y Nadolig, gydag aelodau eraill yn chwarae dominos, Scrabble neu chwilen.

Ar 21 Tachwedd aethom ar ein taith siopa Nadolig i Gaer. Roedd Lionel ein gyrrwr yn ardderchog ac fe'n gollyngodd yng nghanol Caer er mwyn i ni allu mynd ati i siopa ar unwaith. Roedd y tywydd yn oer ond yn sych ac roedd pawb wrth eu bodd gyda'r siopau a'r marchnadoedd Nadolig awyr agored gyda'u llu o ddanteithion bwytadwy. Cafodd nifer ohonom gyfle hefyd i weld y cerflun 'Knife Angel' y tu allan i'r Eglwys Gadeiriol. Syfrdanol ac yn sicr yn sobri.

Pob diolch i John Coaches a'i yrwyr am y teithiau hyfryd a gawsom yn ystod y flwyddyn aeth heibio, i'r Pwyllgor am eu holl waith caled, i'r siaradwyr a'r ymwelwyr, i Bwyllgor y Carnifal ac i Ymddiriedolaeth Lady Grace James am eu cefnogaeth ariannol ac am y gefnogaeth a'r brwdfrydedd a ddangoswyd trwy gydol y flwyddyn, ym mhob tywydd gan ein haelodau. Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Joy ar 8716489.

Nadolig Hapus i chi gyd gan holl aelodau Cymdeithas Henoed y Borth.

Y CRYNWYR

**HOLI AC ADDOLI**

CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis
Ionawr 19 am 3 pm

TŶ CWRDD Maes Maelor
Penparcau SY23 1SZ

**CROESO CYNNES I BAWB**
Ymholiadau:
01970 612794
medijames22@gmail.com

# Etholiad 2019

Yn etholiad San Steffan 2017, fe enillodd Ben Lake sedd Ceredigion dros Blaid Cymru gyda mwyafrif o 104 dros Mark Williams, ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn yr etholiad eleni fe enillodd Ben Lake gyda mwyafrif o 6,329 dros y Ceidwadwyr gyda'r DRh yn drydydd. Beth ddigwyddodd?

Yn gyntaf roedd sawl peth yn milwrio'n erbyn y DRh. Yn Brydeinig fe gawsant ymgyrch anodd iawn, gydag arweinydd newydd, anadnabyddus i'r rhan fwyaf o'r etholwyr, a wnaeth hi ddim cynyddu yn ei phoblogrwydd yn ystod yr etholiad. Yn ail, gellir dadlau fod pleidlais Mark Williams yn y gorffennol wedi bod yn un oedd yn denu pawb oedd yn erbyn Plaid Cymru, gan gynnwys llawer o Doriaid a Llafurwyr oedd yn cefnogi'r DRh oherwydd eu bod yn credu mai ras rhwng dwy blaid oedd hi. Fe gollodd y DRh gefnogaeth llawer iawn o'r Llafurwyr yn 2015, oherwydd y glymblaid rhwng y DRh a'r Toriaid yn senedd 2010-15. Wedyn fe ddaeth y bleidlais ar Brecsit yn 2016, ac yn sicr fe effeithiodd hyn ar eu pleidlais yn 2017, ac roedd yn un o'r rhesymau pam y collon nhw'r sedd y flwyddyn honno o drwch blewyn. Eleni roedd effaith Brecsit lawer yn fwy. Roedd cefnogwyr Brecsit yn flin a rhwystredig nad oedd Prydain wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ôl tair blynedd a mwy, ac o ganlyniad fe gynyddodd pleidlais y Toriaid a Phlaid Brecsit (o gymharu ag UKIP yn 2017). Ar ben hynny, ymdrechu i adennill ei sedd yr oedd Mark Williams y tro hwn, ac mae hynny, fel arfer, yn anos na chadw sedd. Canlyniad hyn i gyd oedd i bleidlais y DRh gwympo o 29% yn 2017 i 17.4% eleni, cwymp o tua 4,500 pleidlais.

Fel y nodwyd, fe aeth rhai o'r rhain i'r Toriaid, ond mae'n amlwg fod llawer iawn ohonynt wedi mynd i Ben Lake. Wrth fynd o gwmpas i ganfasio drosto, roedd hi'n amlwg fod Ben yn gymeradwy iawn ar draws y sir, hyd yn oed ymysg y rhai nad oeddynt am bleidleisio drosto. Mae ei wreiddiau yn ardaloedd dyffryn Teifi a dyffryn Aeron yn ddwfn iawn, ac mae hynny wedi bod yn fantais fawr iddo. Mae'n ddyn pobl, sy'n gallu siarad ag unrhyw un a chymryd diddordeb yn yr hyn y maent yn ei ddweud. Ar ben hyn, mae'n beniog a chall, ac mae ef a'i staff wedi gweithio'n ddiarbed dros etholwyr Ceredigion dros ddwy flynedd a hanner, ac yn sicr bu hynny'n hanfodol wrth iddo gadarnhau ei afael ar y sedd. O ganlyniad fe lwyddodd PC i ddenu cefnogaeth oddi ar y DRh a Llafur, yn enwedig yng ngogledd y sir, lle nad oedd Ben yn adnabyddus o gwbl yn 2017, a rhoi inni'r canlyniad gorau i'r Blaid yn yr etholaeth ers bron i ugain mlynedd. Fe gynyddodd y bleidlais o 29.2% i bron 38%, cynnydd o dros 3,500 pleidlais. Mae Ben wedi cael pleidlais o ffydd sylweddol; rwy'n siŵr na fydd yn ein siomi.

**RICHARD OWEN**

**Etholiad cyffredinol 2017: Etholaeth: Ceredigion**

| Plaid | Ymgeisydd | Pleidleisiau | % | ±% |
|---|---|---|---|---|
| Plaid Cymru | Ben Lake | 11,623 | 29.2 | 1.6 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | Mark Williams | 11,519 | 29.0 | -6.9 |
| Llafur | Dinah Mulholland | 8,017 | 20.2 | 10.5 |
| Ceidwadwyr | Ruth Davis | 7,307 | 18.4 | 7.4 |
| Plaid Annibyniaeth y DU | Tom Harrison | 602 | 1.5 | -8.7 |
| Gwyrdd | Grenville Ham | 542 | 1.4 | -4.2 |
| Lwni | Sir Dudley the Crazed | 157 | 0.4 | 0.4 |
| | **Mwyafrif** | 104 | 0.3 | -8.0 |
| | **Y nifer a bleidleisiodd** | 39,767 | 75.2 | 6.2 |

**Etholiad cyffredinol 2019: Ceredigion**

| Plaid | Ymgeisydd | Pleidleisiau | % | ±% |
|---|---|---|---|---|
| Plaid Cymru | Ben Lake | 15,208 | 37.9 | 8.7 |
| Ceidwadwyr | Amanda Jenner | 8,879 | 22.1 | 3.8 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | Mark Williams | 6,975 | 17.4 | -11.6 |
| Llafur | Dinah Mulholland | 6,317 | 15.8 | -4.4 |
| Plaid Brexit | Gethin James | 2,063 | 5.1 | 5.1 |
| Gwyrdd | Chris Simpson | 663 | 1.7 | 0.3 |
| | **Mwyafrif** | 6,329 | 15.8 | 15.6 |
| | **Y nifer a bleidleisiodd** | 40,105 | 71.3 | -3.9 |

**Y canlyniad o Wicipedia.**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn:**

*Rhagfyr*

22 5.00 Oedfa'r Gair a'r Geiriau, Capel y Garn

29 10.00 Dr. Watcyn James

*Ionawr 2020*

5 2.00 Bugail (oedfa gymun)

12 11.15 Bugail

19 10.00 Y Parchg John Tudno Williams

**Dathlu'r Aur**

Llongyfarchiadau cynnes i Cynthia ac Arnold Evans, Cwmwythig, ar ddathlu Priodas Aur yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r ddau ohonoch.

**Ymgartrefu yn Llanilar:**

Dymuniadau gorau i Iona Davies, Maencrannog wrth iddi wneud ei chartref yn Y Nyth, Llanilar. Ein colled ni yma ym Mhen-llwyn fydd ennill Llanilar. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn ond yn taro nôl i'n gweld yn aml.

**Merched y Wawr Melindwr**

Roedd dyddiad a lleoliad gwahanol i'n cwrdd ar Dachwedd 12 oherwydd nad oedd ein gŵr gwadd yn medru bod hefo ni ar y dyddiad arferol ac nid oedd y neuadd ar gael. Festri'r capel – ystafell foethus a chroesawgar oedd yn ein derbyn ni ar noson oer dywyll. Roedd gan ein trysorydd Elenor Jones waith ychwanegol casglu arian at sawl achos – sef y cardiau Nadolig, raffl y mudiad a thâl arferol.

Gyda chroeso cynnes gan Eirwen McAnulty cychwynwyd y noson gan adrodd cân y mudiad – Fy Iaith, Fy Ngwlad. Gyda chymaint o waith i gwblhau a chymaint o hysbysebiadau roedd rhaid i'n gwestai aros ychydig.

Roedd pawb yn falch o groesawu un o aelodau cyntaf y gangen, Delyth, Cae Haidd gynt, gwraig Geraint Morgan ein gŵr gwadd. Brodor ei filltir sgwâr yw Geraint o Fwlch-llan, ac yn fferyllydd cymunedol yn Nghregaron erbyn hyn. Mae hefyd yn Ysgrifennydd Clwb Rygbi Tregaron ac yn dal i gynorthwyo CFFI Llangeitho.

Ei athro Cemeg yn Ysgol Uwchradd Tregaron gafodd ddylanwad mwyaf arno ac fe aeth ymlaen i Brifysgol Caerdydd i fod yn fferyllydd. Aeth ymlaen i ddangos silffoedd electronig fferyllfa'r Ysbyty sydd yn gweini cyffuriau gan ddefnyddio Robot.

Dyletswydd fferyllydd yw i weini y cyffur iawn i'r claf iawn ar y pryd iawn am y gost iawn, gyda chaniatâd y claf. Mae pob meddyginiaeth yn gallu bod yn wael os bydd gormod yn cael ei weini – e.e. y cyffur Warfarin. Hefyd mae'n bwysig peidio bwyta rhai bwydydd neu foddion eraill. Cafwyd hefyd hanes Aspirin, Penicillin,Y Pilsen, Prozac ac eraill. Mae busnes meddyginiaeth wedi newid tipyn ers i Aspirin gael ei ddarganfod mewn coeden Helyg gan Bayer ym 1899. Gan mlynedd ar ôl hyn cafodd Taxol – meddyginiaeth at gancr y fron ei ddarganfod o'r goeden Ywen. Yn ddiweddarach ac ar y pryd mae gwaith Genomeg yn cymryd y frwydr cancr ymlaen.

Cafodd pawb gyfle i holi cwestiynau a chael cyngor sut i ofalu am ein cyffuriau ni adref cyn i Lis Collison ddiolch i Geraint a chyn mwynhau clonc dros baned wedi ei darparu gan Rita Jones ac Aerona Armitage.

Cyn dychwelyd cafodd aelodau lun gyda'u bocsus anrhegion Nadoligaidd cyn eu dosbarthu i wahanol gartrefi'r henoed trwy yr elusen Age Cymru. Diolchwyd i'r aelodau am roi mor hael at yr alwad yma.



**Cofio Daniel Hywel Wyn Jones, Awel Deg 27/02/1929 - 12/11/2019**

Ganed Hywel ar 27ain o Chwefror 1929 ac roedd yn 90 oed a 9 mis pan fu farw.

Cafodd ei eni a'i fagu yn Rhydyceur, Capel Madog, yn fab i Daniel ac Elizabeth Jones a brawd ieuengaf Glyn. Bu farw Glyn o niwmonia yn 19 mlwydd oed pan oedd Hywel ond yn 10 mlwydd oed.

Gadawodd Ysgol Trefeurig yn 14 mlwydd oed ac aeth i weithio ar fferm Lluest Fawr gerllaw, yng Nghapel Madog. Doedd hi ddim ond rhyw ddeufis yn ôl – pan ddaeth allan o'r ysbyty – y gofynnodd i Enid a Linda fynd ag ef am dro yn y car o gwmpas Capel Madog er mwyn iddo gael hel atgofion am ei blentyndod a thynnu sylw at y caeau y bu yntau yn eu haredig yn Lluest Fawr fel bachgen ifanc, a'r cartref ble cafodd ei fagu yn Rhydyceur.

Fel plentyn, roedd yn hoff iawn o geffylau gan ennill amryw o Jimcanas. A pharhaodd ei angerdd at geffylau i mewn i'w arddegau wrth iddo ddod yn joci medrus, gan reidio ar gwrs rasio Llangadog ac yn amlwg fel joci ar y ceffyl rasio enwog, Billy Boy.

Ymunodd â'r fyddin yn 18 mlwydd oed a'i leoli yn yr Almaen am 4 blynedd; dychwelodd i Aberystwyth yn ei ugeiniau gan weithio yn Padarn Dairies lle y cyfarfu ag Enid. Priododd y ddau yn 1958 a'r llynedd bu iddynt ddathlu eu pen blwydd priodas o 60 mlynedd gan dderbyn cerdyn gan y Frenhines i nodi'r garreg filltir arbennig.

Ar ôl priodi, rhedodd Hywel ac Enid ddau dŷ tafarn, y Miners Arms ym Mhont-rhyd-y-groes ac yna'r Ivy Bush yn Llandeilo. Ar ôl genedigaeth Eira ac yna Linda, penderfynodd Hywel ac Enid ddychwelyd i Gapel Bangor, gan setlo yn Ael y Bryn lle ganwyd Glyn.

Dechreuodd Hywel weithio yng Ngholeg Amaethyddol Cymru yn y 70au cynnar fel Prif Borthor gan ymddeol yn 1994. Er iddo



ymddeol yn swyddogol, ni lwyddodd i ymddeol yng ngwir ystyr y gair. Ef, yn ei eiriau ei hun oedd y *"chief cook and bottle washer"* ar gyfer busnes gwely a brecwast Enid. Bob bore byddai'n sefyll yn amyneddgar o flaen y cwcer, y lliain sychu llestri dros ei ysgwydd gyda phopeth wedi ei osod allan fel pin mewn papur yn barod ar gyfer yr archebion brecwast. Daeth amryw o westeion rheolaidd Hywel ac Enid yn ffrindiau oes.

Yn ei 80au dysgodd yn eiddgar sut i ddefnyddio cyfrifiadur am y tro cyntaf, gan ddarganfod ffordd newydd o gysylltu â theulu a ffrindiau drwy e-bost. Roedd yn falch iawn o'i allu i feistroli technoleg a phan fyddai rhywun yn gofyn cwestiwn iddo nad oedd yn gwybod yr ateb byddai'n dweud "y'ch chi'n gyfarwydd â Google? Bydd Google yn gwybod".

Drwy gydol ei oed, anaml iawn yr oedd Hywel yn sâl a dim ond eleni y cydiodd y salwch ynddo. Er hynny, roedd ei feddwl yn chwim o hyd a'i gof yn wych hyd at y diwedd. Doedd dim angen llyfr cyfeiriadau arno gan ei fod yn medru cofio'r rhan fwyaf o rifau ffôn ar unwaith. Cadwodd Hywel yn ffit drwy gydol ei fywyd, gan ddal ati'n anhygoel wrth weithio'n llawn amser yn ystod y dydd a dod adref i gadw golwg ar y caeau yn Ael y Bryn, yn belio gwair, torri cloddiau, plannu llysiau – roedd bob amser rhywbeth i'w wneud. Parhaodd yn heini ar ôl symud i Awel Deg gan fynd allan yn aml am dro o gwmpas Capel Bangor, yn benderfynol o aros mewn iechyd da ac yn ffit hyd nes i'r salwch gydio ynddo rai misoedd yn ôl. Collodd ei frwydr ar 12fed o Dachwedd yn ei gartref yn Awel Deg, lle bu Enid a Linda yn gofalu amdano'n dyner drwy gydol ei wythnosau olaf.

Dymuna Enid a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

# LLANDRE

**Pen blwydd hapus arbennig**
Pen blwydd hapus arbennig i Sue Henley, Lôn Glanfred.
Ac i Wendy Morgan, Maes Mieri.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Alan Millichamp sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

ac i Rhodri Morgan, Maes Mieri sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr gyda Mair England a'r teulu a'i mam Margaret ar farwolaeth gŵr, tad a tad-cu tyner sef John Glyndwr Williams, Bryngolau Llandre.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Daniel a Nicola, Tradiddan, ar enedigaeth merch fach - Eliza Florence - chwaer fach i Rose sydd yn 3 oed. Cafodd ei geni Tachwedd 17fed ac yn pwyso 5 pwys 7 owns.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Elinor Powell, Coed y Bryn, ar golli ei mam ar Ragfyr 5ed.

ac â Huw Ceiriog a Diana Jones, Nant y Mynydd, ar golli perthnasau yn ddiweddar.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# DÔL-Y-BONT

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Sophie ac Owain James, Tŷ Marc, ar enedigaeth eu mab bach cyntaf. Ei enw yw Hugo Rhys. Mae'n siwr fod Rachel a Gareth Rowlands, Brynllys, wedi gwirioni hefyd o gael eu gor-wyr cyntaf i fyw drws nesaf iddynt. Pob dymuniad da i'r teulu.

# DOLAU

**Cydymdeimlad**
Trist a chwith yw clywed am farwolaeth Gwynant Edwards, Nant-y-felin, (Nantsiriol gynt), ac yntau bob amser mor llawn afiaith cynnes. Gwynant oedd yr ieuengaf o bump o blant Nantsiriol, lle bu'n ffermio drwy ei fywyd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw Vicky, ei ferch Juliet sy'n byw yn Nolgellau, ei fab John sy'n byw yn Llundain, ac i'w chwaer Eirian sy'n byw yn yr Amwythig.

# CLARACH / LLANGORWEN

**Beiciwr prysur**
Gruff Lewis, 15 oed o Langorwen a enillodd Bencampwriaeth Cyclo-cross Cymru gynhaliwyd yn y Fenni ddechrau Rhagfyr. Bu Gruff hefyd yn teithio o amgylch y DU yn rasus y gyfres genedlaethol ddaeth i ben yn Efrog. Daeth Gruff yn 10fed o blith reidwyr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Mae'r cyfan yn dibynnu ar system bwyntiau Bydd Gruff yn reidio yng Ngwlad Belg drosy Nadolig gyda rhai o chwaraewyr gorau y byd cyn Pencampwriaeth Cyclo-cross Cenedlaethol fydd yn yr Amwythig yn Ionawr. Yna toriad byr cyn tymor newydd y rasus beicio ffyrdd a mynydd.

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**






# PENRHYN-COCH

**Horeb**

*Rhagfyr*

**22** 10.30 Oedfa Nadolig yn cynnwys eitem gan y plant
**25** 8.00 Cymun fore'r Nadolig Y Parchg Peter Thomas
**29** 10.00 Oedfa olaf y flwyddyn Y Parchg Peter Thomas

*Ionawr*

**5** 2.30 Y Parchg Peter Thomas – oedfa gymun
**12** 10.30 Y Parchg Peter Thomas – oedfa deuluol
**19** 2.30 Beti Griffiths
**26** 10.30 Y Parchg John Roberts

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau 8 a 22 Ionawr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn unwaith eto a theulu y ddiweddar Nesta Edwards – Aeron Edwards a Ceinwen Jones a'r teulu ar farwolaeth Daniel Titley, Comins-coch yn 39 oed. Roedd Daniel yn fab i Siân a Steve Titley ac yn frawd i Hannah; bu farw yn ddisymwth dydd Sul 17 Tachwedd. Dyma'r drydedd brofedigaeth i Sian gollodd ei mam – Mrs Eirlys Evans ym Medi a'i thad, Mr Llew Evans yn Ebrill.

**Croeso**

Croeso i Rob a Liz Edwards ac Ifan i Cwrt Newydd – eu cartref newydd ar ochr y ffordd yn y pentref. Mae Rob – fagwyd yn Cwrt yn dychwelyd adref a Liz yn hanu o Cross Inn. Mae Ifan yn mynychu Cylch Meithrin Trefeurig a chroeso i ychwanegiad i'r teulu – ganwyd Myfi Lizzie Edwards ar Dachwedd 19. Dymuniadau gorau!

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Shan ac Alan James, Pen-banc ar ddod yn fam-gu a tad-cu. Ganwyd mab – Hugo James i Sophie ac Owain James, yn Nôl-y-bont.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Hazel Walford Davies oedd ein siaradwr gwadd fis Tachwedd a chawsom sgwrs hynod o ddiddorol ar "Dod i adnabod Syr O.M. Edwards". Sgwrs amserol gan fod ei chofiant o O.M. Edwards ar fin cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Portread tra gwahanol i'r hyn a ddisgwylid gawsom ganddi.

Soniodd am ei fywyd yn Rhydychen, ei gyfnod yn Aber "sgitso direidus yn ystod yr wythnos ac ar y Sul, person annymunol!; ei gyfnod yn Glasgow. Cwestiynodd pwy oedd ei dad biolegol a pham na ddychwelodd yn fwy rheolaidd at ei deulu yn Llanuwchllyn.

Mae'n amlwg fod y gyfrol swmpus wedi deillio o flynyddoedd o waith ymchwil manwl, a chawsom gipolwg ar gymeriad cymhleth a dyrys.

Yn sicr, dyma damaid i aros pryd a hwnnw'n un sylweddol.

Diolch am sgwrs ddifyr, ddadlennol, ac edrychwn ymlaen at bori ymhellach i hanes O.M. yn y flwyddyn newydd. Bydd y gyfrol yn cael ei lawnsio yn y Llyfrgell Genedlaethol ar Chwefror 22ain.

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch**

Cyhoeddwyd manylion am Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2020 yn ddiweddar. Y dyddiadau fydd 23-24 Ebrill; y trysoryddion newydd yw Eleri James, Cae Mawr ac Elin Haf, Y Ddôl Fach.
Y beirniaid fydd
Nos Wener: Cerdd: Bethan Ruth; Llefaru: Carwyn Hawkins
Dydd Sadwrn: Cerdd: Arfon Williams, Cwmtirmynach Llefaru: Ian Lloyd Hughes, Y Bala. Llenyddiaeth: Emyr Lewis,

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

Tîm cyntaf
Cwpan Cymru rownd 2
09/11 Llanelli 0 Penrhyn-coch 1
16/11 Llandudno 4 Penrhyn-coch 0
23/11 Penrhyn-coch 3 Prestatyn 2
30/11 Penrhyn-coch 0 Llanrhaeadr-ym-mochnant 3

Cwpan Cymru Rownd 3
07/12 Penrhyn-coch 1 Prestatyn 2

Eilyddion
17/11 Cwpan Dai Dynamo Aber-porth 3 Penrhyn-coch 1
23/11 Tal-y-bont 4 Penrhyn-coch 2
30/11 Bow Street 2 Penrhyn-coch 1



**Llun: Beverley Hemmings**

**Sioe Flynyddol Cymdeithas y Gwenynwyr Cymraeg**

Nid yn aml y mae gwenynwyr yn cael blwyddyn i'w plesio ac anamlach fyth yw cael dwy flynedd o lewyrch yn dilyn ei gilydd! Fyny ac i lawr fu tymhorau blynyddoedd yr ugeiniau – blynyddoedd cyffredin iawn eu cynaeafau ac aml flwyddyn heb ddim. Gocheler y gwenynwyr rhag gor- ganmol a themtio ffawd byd natur a byd gwenyn wrth or-ganmol y ddwy flynedd hyn.

Roedd llwyddiant y flwyddyn yn amlwg ar fwrdd y sioe flynydol yng Nghanolfan Capel Seion ganol Tachwedd. Byrddau llawn a'r mêl hynny yn ôl y beirniad, Ceri Morgan, Cilgerran, fyny i safon unrhyw sioe genedlaethol trwy'r wlad. Beth arall oedd i'w ddisgwyl oddi wrth aelodau'r gymdeithas a hawliai'r brif wobr yn y Sioe Frenhinol bron yn flynyddol?

Dyma'r prif enillwyr:
Mêl golau, Gwydion. Mêl canolig, Wil



**Gwydion ab Ifan, Mêl y Felin, Penrhyn-coch, yn derbyn y wobr am y nifer fwyaf o bwyntiau oddi wrth y beirniad, Ceri Morgan. Gwelir ei gychod isod**



Griffiths. Mêl Tywyll, Wil Griffiths Mêl caled. Lewis Griffiths. Mêl Grug, Gwydion. Mel Hufennog, Gwydion. Eitem Fasnachol, Bert Jones. Eitem Gyfansawdd, Gwydion. Cwyr, Bert Jones' Surfedd, Gwydion. Mêdd, Wil Griffiths. Ffram, Gwydion. Cynnyrch cwyr, Bert Jones. Cacen Fêl, Mair Griffiths. Cwpan yr eitem fêl orau, Gwydion. Cwpan nifer mwyaf o bwyntiau, Gwydion. Cynhelir Cyfarfodydd bob bythefnos yn Y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn am 7.30 o'r gloch. Croeso i bawb i ymuno â ni.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Delyth Jones, Rhydyrysgaw, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei chwaer - Jill Ramwell - yn Llandrindod.

**IBERS – dathlu canrif**
Darlledwyd rhaglen Galwad Cynnar fore Sadwrn 14 Rhagfyr ar Radio Cymru o IBERS Gogerddan i ddathlu canrif y Fridfa. Bu Bryn Tomos yn trafod magu gweiriau a meillion newydd gyda Rhun Fychan, Ymchwiliwr Porthiant a Silwair; Dr Kerrie Farrar, Prif Ymchwilydd a gwyddonydd yn gweithio ar gnydau, ynni ac amaethyddiaeth cynaladwy a Dr Iwan Owen, darlithydd mewn amaethyddiaeth, agronomeg, glaswelltiroedd a chnydau. Mae modd gwrando ar y rhaglen am gyfnod eto ar BBC Sounds.

**Cywiriad**
Ymddiheuriadau. Dylai y stori yn rhifyn Tachwedd am Lisa Davies yn rhedeg hanner marathon Caerdydd ddarllen "'er cof am ei hewythr Paul Rowlands'.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006



## Colofn Elin Jones

Mae wedi bod yn fis prysur yn y Cynulliad, ac rydym wedi bod yn trafod rhaglen diwygio'r Cynulliad. Mae ymateb positif wedi bod at y Bil Senedd ac Etholiadau, sy'n trafod gostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru i 16, gobeithio erbyn 2021. Mae'r Bil yn symud gam yn nes at derfyn ei daith ddeddfwriaethol, ac roedd yn galonogol fod y mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 mewn cyfnod gwleidyddol mor arwyddocaol. Mae'r Senedd Ieuenctid wedi creu argraff arbennig yn ei blwyddyn gyntaf ac yn dyst i ganlyniadau cadarnhaol rhoi llais i'n pobl ifanc. Bydd gostwng yr oedran pleidleisio yn adeiladu ar y gwaith hwn. Bydd cyfnod olaf y Bil yn cael ei drafod mewn pythefnos.

Yn lleol, mae datblygiadau yn y maes iechyd i'w gweld gydag agoriad Canolfan Minaeron yn Aberaeron. Mae meddygfa Tan-y-fron nawr wedi'i adleoli fan hyn yn ogystal â nifer o wasanaethau iechyd eraill. Gobeithiaf bydd y Bwrdd Iechyd nawr yn gallu cynnal nifer o glinigau yma, yn hytrach na bod rhai cleifion yn gorfod teithio'n bell am eu triniaethau. Rwy'n cadw llygaid ar y broses o agor canolfannau tebyg trwy'r etholaeth.

Mae sawl person wedi cysylltu gyda fy swyddfa yn ddiweddar yn sôn am ddiffyg argaeledd deintyddion yng Ngheredigion. Mae hyn yn adlewyrchu darganfyddiadau'r Gymdeithas Ddeintyddol Brydeinig sy'n honni ar golled yn yng Ngheredigion wrth geisio dod o hyd i ddeintydd y Gwasanaeth Iechyd. Mae angen mynd i'r afael ar frys â'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu yng Ngheredigion, a byddaf yn codi hyn gyda'r Gweinidog Iechyd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

# Myfyrdod y Nadolig

Un o'r pethau sy'n siwr o ddenu sylw rhywun yr adeg yma o'r flwyddyn yw'r hysbysebion Nadoligaidd ar y teledu gan wahanol siopau ac archfarchnadoedd. Cymeriad neu greadur fydd yn cymryd y brif ran gan amlaf ac eleni daeth "Edgar y Ddraig" a "Cefin y Foronen" yn wynebau cyfarwydd i lawer ohonom. Pwy fyddai wedi meddwl fod gan foronen y gallu i siarad!
Ar y cyfan, mae'r hysbysebion yn ceisio arddangos y rhinweddau da a chadarnhaol hynny mewn bywyd megis caredigrwydd, llawenydd ac ewyllys da. Yn ogystal, crëir ynddynt naws ddisgwylgar a rhyfeddol ac am hynny rhaid eu canmol am hyrwyddo ysbryd teuluol a chymunedol – yr hyn sydd mor bwysig yn nhymor y Nadolig. Mae'n siwr i'r hysbysebion gostio'n ddrud i'w cynhyrchu ond er mor ddifyr yw eu gwylio, gwyddom mai sail eu bodolaeth yn y pen draw yw denu pobl i wario arian a phrynu nwyddau.
Wrth gwrs, ymhob un o'r hysbysebion mae prif gymeriad gŵyl y Nadolig, sef Iesu, ar goll. Ie, mae'n hen ystrydeb mi wn – Christ has been taken out of Christmas. Ond fyddai yna ddim Nadolig oni bai fod Iesu wedi'i eni yn llety'r anifail. Dyna sydd yn rhoi gwir ystyr a phwrpas i'n holl baratoadau a'n dathlu. Daeth Duw i'n plith fel baban bach i gofleidio'r hil ddynol â'i gariad anhraethol, gweithred sy'n medru cyrraedd y mannau mwya tywyll ac anodd hynny yn ein bywydau. Yng ngrym y geni gwyrthiol mae modd gweld y goleuni na ellir mo'i ddiffodd, y gobaith na ellir mo'i ddymchwel a'r llawenydd na ellir mo'i ddwyn ymaith. Felly awn i Fethlehem y Nadolig hwn i groesawu Iesu i'n plith, i'w dderbyn yn Arglwydd, gan roi ei gariad ar waith yn y byd. Yng nghanol ein dathliadau cofiwn mai Ef yw prif gymeriad y Nadolig!

**Y PARCHG WYN MORRIS**

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**10.00**
*Rhagfyr*
22 Gwasanaeth Nadolig Teuluol
25 9.00 Oedfa ar fore'r Nadolig dan arweiniad y Gweinidog
29 Carwyn Arthur

*Ionawr*
5 Bugail
12 J Tudno Williams
19 Bugail
26 Bugail – Oedfa'r Ofalaeth

**Noddfa**
**10.00 oni nodir yn wahanol**
*Rhagfyr*
22 Y Parchg Richard Lewis
24 Gwylnos Nadolig am 11.30 pm
25 Uno yn y Garn ar gyfer oedfa bore Nadolig
29 Uno yn y Garn

**Ionawr**
5 Uno yn y Garn
12 Y Parchg Richard Lewis
19 Cyfeillach
26 Y Parchg Richard Lewis

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Beth gwell gael yng nghyfarfod mis Hydref ar ddechrau'r gaeaf, ond noson hwyliog yng nghwmni yr arwerthwr tai,Y Bon. Iestyn Leyshon.Cawsom sgwrs yn llawn storïau digri o ddigwyddiadau a gododd yn ystod ei ddiwrnod gwaith. Mae Iestyn yn hoff iawn o gajets.Daeth ag ambell i un o'r rhai diweddaraf gydag ef i ddangos inni y ffordd ddiweddaraf o dynnu lluniau.Os gwelwch chi ddron bach yn hofran yn agos i chi, cadwch lygad allan am Iestyn. Diolch i Sian Jean am baratoi y te. Enillwyd y raffl gan Marian.



## Parti Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau

Ar ddydd Sadwrn 7fed o Ragfyr, cynhaliwyd parti Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau gyda nifer da o blant y fro yn bresennol. Dymuna'r cylch ddiolch yn diffuant i Wales and West Housing, Morrisons a Spar Northgate am y nawdd caredig tuag at gynnal y digwyddiad. Diolch i bawb a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y parti ac i lu o fusnesau ac unigolion lleol wnaeth gyfrannu gwobr i'r raffl ar y diwrnod. Diolch hefyd i Siôn Corn am alw heibio i ddosbarthu anrhegion i'r plant. Bydd elw'r digwyddiad yn mynd tuag at brynu offer newydd i blant y cylch i fwynhau a parhau i ddysgu a datblygu.





**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Siôn England, Sara ac Alys ar farwolaeth tad-cu Sion John Glyndwr Williams, Llandre.

Ac â Non a John Jenkins, Maes Afallen, ar farwolaeth Ann Jenkins – chwaer John – yn Aberystwyth.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Aled ac Erin Myrddin, Cae Rhos ar enedigaeth Sia ar 28 Tachwedd; chwaer fach i Lili, Jac, Leisi a Bobi-Jo. Mwy fyth o gyffro iddynt dros y Nadolig.

Hefyd i Martin a Beatrice Pugh ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, mab bach, yn Llundain. Anrheg Nadolig cynnar a pherffaith i Taid, sef Robert Pugh, Maes Ceiro.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Auriel Evans, Trewylan, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Braf yw ei gweld adref ac edrychwn ymlaen i'w gweld oddi amgylch y pentref yn fuan.

**Capel y Garn**
**Cymdeithas y Chwiorydd yn Dathlu'r Nadolig**
Agorwyd drws i'r Nadolig yn festri'r Garn ar y diwrnod olaf o fis Tachwedd pan gynhaliodd Cymdeithas y Chwiorydd eu bore coffi blynyddol. I ddechrau'r dathliad torrodd y gweinidog, y Parchg Watcyn James, y gacen adfent, a oedd yn rhoddedig gan Gartref Tregerddan mewn gwerthfawrogiad o wasanaeth gwerthfawr Kathleen Lewis i breswylwyr y cartref. Trwy ddyfalwch Meinir Lowry a Gwenan Price roedd llond bwrdd o gynnyrch cartref danteithiol a maethlon ar werth, ochr yn ochr â sioe o addurniadau Nadolig crefftus a lliwgar o waith Dwysli Williams ac Ann Jones, a oedd hefyd ar werth. Daeth nifer dda o gefnogwyr ynghyd i fwynhau paned, mins pei, darn o gacen a sgwrs, ac i gyd-bendroni uwchben lluniau hynod a chliwiau hynotach Iestyn Hughes am gestyll Cymru - Gweneira Williams a Lowri James gafodd fwyaf o atebion cywir. I orffen tynnwyd y raffl a rhannu'r gwobrau amrywiol a niferus oedd wedi eu casglu a'u trefnu gan Kathleen Lewis a Nans Morgan. Rhwng popeth gwnaed elw anrhydeddus i'w rannu rhwng Capel y Garn ac elusen HAHAV. Y dydd Mercher canlynol aeth y Chwiorydd i Glwb Golff y Borth i ymlacio a mwynhau eu cinio Nadolig. Diolch i Nans Morgan am drefnu hynny. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ionawr 8, 2020.

**Cylch Meithrin Rhydypennau – Llefydd gwag**
Mae Cylch Meithrin Rhydypennau yn cynnig gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2-3 oed ar safle Ysgol Rhydypennau. Mae gan y Cylch rhai llefydd gwag o mis Ionawr 2020 ac o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r cylch ar agor pob bore, o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9yb a 12yp am bris o £10 y sesiwn. Mae croeso cynnes i bawb yn y Cylch, cysylltwch â Beth Daniel, Arweinydd y Cylch, ar 07956 072 128 neu trwy ebostio

cylchmeithrinrhyd@gmail.com os hoffech fwy o wybodaeth.

Mae modd gweld lluniau o rhai o weithgareddau'r cylch ar dudalen Facebook y cylch - Cylch Meithrin Rhydypennau.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Eurfryn a theulu y ddiweddar Gwen Williams, Maes Afallen (Gwarcwm Isaf Taliesin gynt) fu farw ym mis Tachwedd.

**Sul Y Cofio**

Am yr ail flwyddyn yn olynol cynhaliwyd gwasanaeth cymunedol ar gyfer Sul Y Cofio yn Neuadd Rhydypennau ac yr oedd yn braf gweld cynulleidfa o dros hanner cant yn bresennol.

Trefnir y cyfarfod gan y Parchg Richard Lewis ac fe gymerwyd rhan gan gynrychiolwyr nifer o fudiadau lleol gan gynnwys Sefydliad y Merched, Neuadd Rhydypennau, Merched y Wawr, Eglwys Genau'r-glyn, Capel Noddfa, Capel y Garn a Chyngor Cymuned Tirymynach. Miss Kathleen Lewis oedd y cyfeilydd. Yn naturiol mae'r pwyslais ar nodi Sul y Cofio ond y mae ymbil am heddwch ar draws y byd yn greiddiol i 'r gwasanaeth hefyd ac yr oedd yn braf cael cwmni Lois Pantyperan yn bresennol yn cynrychioli'r genhedlaeth iau a hi gafodd y cyfle i ychwanegu torch o babis gwyn fel symbol o heddwch at y dorch o rai coch eleni. Gyda Lois yn cynorthwyo Meinir Lowry gyda'r torchau yr oedd yn ddiddorol nodi'r cysylltiad teuluol rhwng y ddwy gyda tad Meinir a hen dad-cu Lois yn ddau frawd.



Lois, Math a Celt Roberts, yn dymuno'n dda i Ben Lake. Ym 1979, 40 mlynedd yn ôl, taid y plant – Dr Dafydd Huws, fagwyd yn Llandre, oedd ymgeisydd Plaid Cymru yng Ngheredigion. Mae'r tri yn aelodau o Ysgol Sul Unedig Bow Street ac mae Celt yn mynychu Cylch Ti a Fi Llandre a Bow Street.



# Diweddariad ar Orsaf Bow Street

Mae gorsaf reilffordd newydd a chyfleusterau cyfnewidfa aml-foddol parcio a theithio strategol yn cael eu datblygu ar Reilffordd y Cambrian rhwng gorsafoedd rheilffordd y Borth ac Aberystwyth, ym mhentref Bow Street. Bydd yn cynnwys maes parcio (bydd modd parcio am ddim yna) a lle storio beics a bydd yn agor i deithwyr tua Haf 2020.



Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, bydd yr orsaf newydd yn cael ei darparu gan Trafnidiaeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion.

Bydd yr orsaf yn gwneud y rhwydwaith rheilffyrdd yn fwy hygyrch, bydd yn gwella'r integreiddio ar drafnidiaeth a bydd yn cynnig dewis arall yn lle›r car ar gyfer siwrneiau.

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu yr orsaf yn yr hydref ac ym mis Tachwedd, cafodd y platfform newydd ei roi i mewn – roedd hyn yn golygu nad oedd trenau yn gallu rhedeg rhwng Machynlleth ac Aberystwyth am 10 ddiwrnod - a hoffai Trafnidiaeth Cymru ddweud diolch i'r holl gwsmeriaid am fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod yma.

Am unrhyw wybodaeth neu ddiweddariad ar Bow Street, gellir cysylltu â Lowri Joyce: lowri.joyce@tfw.wales

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Capel Llwyn-y-groes**
Mae y Parchg Elwyn Pryse yn ymddeol o'r Weinidogaeth ar ôl 71 mlynedd o bregethu yr Efengyl. Bu yn ffyddlon iawn gyda ni yn Aber-ffrwd a Llwyn-y-groes ar hyd y blynyddoedd. Ymddeoliad hapus iawn i chi a diolch am yr hiwmor a' ch ymroddiad dros y blynyddoedd.



**Beth yw pwrpas hwn, tybed? Gwarchodfa Natur Coed Simdde-lwyd, uwchben Cwmrheidol, yn agos at lwybr cyhoeddus.**

## TREFEURIG

**Valma Jones**
Dymunwn ben blwydd hapus hwyr i Valma Jones - cyn brifathrawes Ysgol Trefeurig, ddathlodd ei phen blwydd yn gant ar Ragfyr 13. Dymuniadau gorau a chofion ati yn Aber-mad.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn a'r Cynghorydd Dai Mason a'r teulu ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith, Henry Pollack, ym Mhontrhydfendigaid.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Tachwedd 21 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Richard Edwards. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dri Chynghorydd. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Hydref fel rhai cywir. Roedd tri chais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor - sef Ystrad, Capel Bangor; Efail y Gof. Cwmrheidol a Pantmawr, Cwmrheidol. Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

Trafodwyd cyllideb y Cyngor Cymuned a chytunwyd i gadw y praesept yr un peth â'r llynedd. Atgoffwn fod Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychan oddi wrth fudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

· Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.
· Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.
· Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc Cyngor Melindwr ), Glasfryn, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LP. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2019. Bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2020.

Dymuna'r Cyngor Cymuned Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda I drigolion Melindwr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Ionawr 16eg 2020 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
morlan.cymru
01970 617996
morlan.aber@gmail.com
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH 01970-617996

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Deli
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Cwis Nadolig Y Tincer

**Bu'r Tincer bach ar daith i wlad yr hwiangerddi.**

**Eich tasg yw dyfalu pwy neu beth welodd y Tincer yno.**

**Cyfle eleni eto i gael ychydig o hwyl ac ennill gwobr o £10!**

**Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd, dydd Mercher, Ionawr 8 2020 at:**

**Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA neu os dymunwch anfonwch eich deg ateb at gwjones99@aol.com**

**Os bydd mwy nag un ateb cywir yna rhoir yr enwau yn het y golygydd a'r enw cyntaf i'w dynnu allan fydd yn ennill y £10. Pob lwc!**

1. Roedd y person cyntaf welodd y Tincer yng ngwlad yr hwiangerddi yn cario pecyn ar ei gefn. **Pwy welodd y Tincer?**
2. Yna, gwelodd y Tincer wraig yn camu tuag ato yn cario llestr mewn lle uchel a braidd yn fentrus. **Pwy oedd hi?**
3. Cafodd y ddau nesaf a welodd y Tincer anffawd wrth ddychwelyd o daith a'r ddau o bosib wedi bod yn Siop Gwdihw. **Pwy oedd y ddau?**
4. Yna, gwelodd y Tincer greadur yn cael anffawd achosodd i ddau gael gwlychfa, ond trwy lwc roedd y ddau yn meddwl bod hynny'n dipyn o gamp! **Pa greadur welodd y Tincer?**
5. Mi welodd y Tincer hwn wrth garreg y drws yn rhagweld tywydd gaeafol. **Beth welodd y Tincer?**
6. Roedd y person nesaf i'r Tincer ei gweld mewn siop, yn gwerthu am un pris i bawb ond am un arbennig. **Pwy welodd y Tincer?**
7. Yn sydyn mi welodd y Tincer rhywbeth yn mynd ar wib tuag at Douglas. **Beth welodd y Tincer?**
8. Roedd y creadur nesaf i'r Tincer ei gweld wedi colli rhywbeth defnyddiol ar yr eira mawr. **Pwy oedd hi?**
9. Yna, gwelodd y Tincer rhywun yn golchi ei dillad a meddyliodd wrth i'r dillad ddiflannu : "Mi fasa'n well petasa hi wedi mynd i'r laundrette lleol." **Pwy oedd hi?**
10. Ar ddiwedd ei daith gofynnodd y Tincer i berthynas am rhywbeth i'w fwyta ond yr ateb a gafodd oedd, y bydda'n rhaid iddo aros tan Chwefror y flwyddyn nesaf. **Am beth ofynnodd y Tincer?**

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
*Rhagfyr*
22
29 Carwyn Arthur

*Ionawr*
5
12 J Tudno Williams
19 Bugail
26

**Gwellhad buan**
Dymunwn adferiad buan i Sylvia Powell, Nantybwla, Capel Madog ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais, Tywysog Philip Llanelli a Threforus.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Tristan Davies, Llwyngwyddil, Cefn-llwyd ar ei lwyddiant yn adran carcas defaid Beltex yn Sioe Aeaf Llanelwedd; hefyd i Mabli ap Llywelyn, Blwyddyn 1 gyda'i Seren Nadolig yng nghystadleuaeth celf a chrefft

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Daniel John, Grovelands, Capel Dewi ar golli ei dad-cu – Mr Ronnie John o Bontrhydfendigaid;

Â Mick a Sarah Ward, Gelli Fadog, Capel Madog ar farwolaeth tad Nick yn ddiweddar.

## GOGINAN

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Elfed ac Amanda James, Tynpwll, ar eu priodas ar Dachwedd y nawfed. Pob lwc i'r dyfodol.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda theulu Cyncoed ar farwolaeth tad Dai -sef Ronnie John o Bontrhydfendigaid.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Ifan ac Anne Mason Davies, Rhiwfelen, ac enedigaeth dwy or-wyres fach o fewn dyddiau i'w gilydd. Y naill yn Sheffield a'r llall yn Abertawe. Pob dymuniad da iddynt.

# Colofn Enwau Lleoedd

Mae *Brogynin* yn nyffryn afon Stewi, rhwng pentrefi Salem a Phenrhyn-coch, yn enw cyfarwydd ar hyd a lled Cymru oherwydd ei gysylltiad â Dafydd ap Gwilym, y bardd enwog o'r oesoedd canol. Dadorchuddiwyd cofeb yn 1977 i ddynodi mai yno y'i ganed.

Digwydd y cyfeiriad cynharaf at *Frogynin* mewn englyn yn llawysgrif Peniarth 53 (t.87) a ddyddir i ddiwedd y bymthegfed ganrif:

naw ygain mlynedd gyn maithin
davydd ydwyd tal iesin
jc genid y***mro gynin***
brydudd au guwydd val gwin

Neu o'i ddiweddaru:

Naw ugain mlynedd cyn meithrin Dafydd
Y dyfod Taliesin
Y genid ym Mrogynin
Brydydd â'i gywydd fel gwin.

(Daw'r diweddariad o R. Geraint Gruffydd: 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', tt. 425–42, yn Cyril J. Byrne, *et al.* (gol.): *Celtic Languages and Celtic Peoples* (Halifax, Nova Scotia, 1992) t. 426).

Mewn gwirionedd, dyma hefyd y dystiolaeth gynharaf sy'n cysylltu'r bardd â'r lleoliad.

Gwyddom fod mwy nag un annedd yn dwyn yr enw erbyn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif gan fod un o weithredoedd Stad Trawsgoed (rhif I. 773) yn cyfeirio at '*Broginninvach*' yn 1735, a bod Lewis Morris ar ei fap 'A plan of the Mannor of Perveth' a luniwyd tua 1747, yn cofnodi '*Broginin fawr*' ar lan ddeheuol afon Stewi ym mhlwyf Trefeurig a '*Broginin bach*' ar ei glan ogleddol yn Nhirymynach.




Lewis Morris: *A plan of the Mannor of Perveth* (http://hdl.handle.net/10107/1445616) trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ymddengys fod tŷ annedd *Brogynin Fawr* yn dadfeilio erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly aed ati tua chanol y ganrif (rhywbryd ar ôl llunio'r Map Degwm yn 1843 ond cyn cyhoeddi argraffiad cyntaf map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1886) i godi tŷ newydd sylweddol ar y llethr uwchlaw. Dyma'r *Brogynin Fawr* newydd, ond câi ei adnabod hefyd fel *Plas Brogynin*.

Tua'r un cyfnod, daeth *Brogynin Ganol* i fodolaeth, wedi ei lleoli'n fras rhwng *Brogynin Fawr* a *Brogynin Fach*, ar y rhiw i gyfeiriad Salem. Fe'i gelwir bellach yn *Brogynin Cottage*.

Cyfuniad yw'r enw o'r elfen *bro* yn golygu 'ardal, gwlad, tir, cymdogaeth' neu 'ddyffryndir, iseldir', a'r enw personol *Cynin*, er ei bod hi'n amhosibl dweud pwy yn union ydoedd.

Yr un enw personol a welir yn yr enwau lleoedd *Sarn Gynin* ger Llanybydder, Ceredigion; *Llangynin*, *Afon Gynin*, a *Chastell Cynin*, i'r gogledd o Sanclêr, a Thregynin ym mhlwyf Llangathen, sir Gaerfyrddin; a *Nant Clog-gyning* (lle gwelwyd *n* ac *ng* yn ymgyfnewid), hen enw Llysnant ym mhlwyf Llanwynno, Morgannwg (gweler R. J. Thomas: *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (1938) t.200).

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.




## Croeso i'r Calendr!

**gan Daniel Johnson - ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion**

Helo bawb! Mae'n cwpwl o fisoedd ers i wefan BroAber360 fynd yn fyw, ac erbyn hyn mae'n llawn straeon diddorol, aml-gyfrwng - o ddarn am y cerddor o Landre, Ffion Evans, i stori am lwyddiant Clybiau Ffermwyr ifanc ceredigon yn Eisteddfod Cymru. Er mwyn gwylio, chlywed a darllen y diweddara, ewch i **broaber360.cymru**.

Rydym wrthi'n datblygu'r wefan drwy'r amser, a'r elfen ddiweddara yw calendr digidol - lle i chi rannu eich ddigwyddiadau lleol ar-lein drwy'r Gymraeg. O gemau bêl-droed i gyngherddau, o wyliau i foreau coffi - dyma'r lle i weld a rhannu be sy mlan yng ngogledd Ceredigion. I weld be sy mlan yn barod, ewch i broaber360.cymru a dewiswch 'Digwyddiadau'.

Mae na lwyth o bethau mlân yn yr ardal wrth i ni agosau at y Dolig a'r flwyddyn newydd, felly cofiwch fynd i hyrwyddo digwyddiadau eich bro ar y calendr. I ychwanegu digwyddiad, bydd angen i chi greu cyfrif yn gyntaf drwy bwyso'r botwm 'Ymuno' a dilyn y cyfarwyddiadau, ac yna mynd i 'Creu > Digwyddiad'. Dwi'n cynnal sesiynau galw heibio pob ddydd Gwener mewn caffis lleol - os ydych am i mi gwrdd â chi i ddangos sut y gallwch gyfrannu at y calendr neu gyfrannu stori, cysylltwch!

Ar ben hyn, dros gyfnod yr adfent da ni am fod yn rhannu un anrheg digidol gyda chi bob dydd, sef #Tips360. Cadwch lygad ar gyfrifon Twitter, Instagram a Facebook **Bro360** i weld tips bach defnyddiol ar bob math o bethau digidol y gallwn ni eu gwneud yn rhwydd wrth hyrwyddo'r pethau sy'n bwysig i ni'n lleol.

I gael sgwrs, holi am gymorth neu roi gw'bod am stori bosib i'ch gwefan, cysylltwch â mi ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

Nadolig llawen, a blwyddyn newydd dda i chi gyd!

*Cyfle i chi ddysgu cwplach o dips digidol!*




# Deunydd darllen

Golwg ar Gymru Dafydd ap Gwilym
John K. Bollard ac Anthony Griffiths,*Cymru Dafydd ap Gwilym: Dafydd ap Gwilym's Wales*, Gwasg Carreg Gwalch, 2019. Pris £12. 158t.

O blith trigolion bro'r *Tincer* ar hyd y canrifoedd mae'n go sicr mai Dafydd ap Gwilym yw'r un mwyaf ei fri rhyngwladol. Ar wahân i'r llu ysgolheigion o Gymru a roddodd sylw i'w waith, heb grafu pen yn ormodol mae modd meddwl am ysgolheigion o'r Almaen, yr Iseldiroedd, Lloegr, Iwerddon, yr Alban ac UDA a ddenwyd ganddo. O UDA—o dref Northampton ym Massachusetts—y daw un o awduron y gyfrol hon, John K. Bollard, gŵr a ymserchodd yn llenyddiaeth Gymraeg yr oesoedd canol. Gŵr o nes adref, Anthony Griffiths, y ffotograffydd (a'r gitarydd) o Aberystwyth, yw'r awdur arall: dyma'r bumed gyfrol i'r ddau eu cyhoeddi gyda'i gilydd.

Mae'r cyfieithiadau Saesneg o farddoniaeth Dafydd yn niferus: yn ystod yr unfed ganrif ar hugain fe gafwyd hyd yma gynifer â thri chyfieithiad o'i holl gerddi. Arbenigrwydd y gyfrol hon—sy'n cynnwys cyfieithiadau o dros 30 o gerddi Dafydd ynghyd â'r testunau Cymraeg gwreiddiol—yw ei bod yn cynnwys ffotograffau i gyd-fynd â'r cerddi. Yn ôl y rhagymadrodd 'dewiswyd cerddi lle mae Dafydd yn enwi lleoedd a phersonau yn benodol ac ymhlyg': hawdd gweld bod y posibiliadau gweledol a ffotograffyddol wedi dylanwadu ar y dewis o gerddi. Mae'r canlyniadau yn cyfiawnhau egwyddor y dethol:




mae'r gyfrol yn porthi'r llygad yn ogystal â'r dychymyg a'r meddwl.

O ran darllenwyr bro'r *Tincer* efallai mai'r gerdd fwyaf ei diddordeb a gynhwysir yma yw 'Taith i Garu' sy'n enwi nifer o fannau nid nepell o gartref Dafydd ym Mrogynin y gwyddai amdanynt yn sgil ei deithiau i 'Gyfarfod â gwiw Forfudd'. Mae ambell un o'r enwau wedi goroesi, ond mae union leoliadau rhai o'r lleill yn ansicr, er gwaethaf ymdrechion glew ysgolheigion fel David Jenkins ac R. Geraint Gruffydd i'w hadnabod. Yn y nodiadau sy'n cyd-fynd â'r cywydd yn y gyfrol fe grynhoir eu hawgrymiadau (tt. 118-120) gan nodi'r lleoedd ar fap defnyddiol o'r ardal. O ran datrys pethau fel hyn 'does dim yn fwy gwerthfawr na gwybodaeth leol, o'r fath, mi dybiwn, sy'n eiddo i amryw o ddarllenwyr *Y Tincer*. Gobeithio y bydd rhai ohonoch yn darllen y gyfrol hon ac yn tafoli awgrymiadau'r ysgolheigion. A ydynt yn argyhoeddi bob tro? A oes gan rywrai ohonoch wybodaeth neu awgrym newydd i'w cynnig? Gyda llaw, un o luniau mwyaf ardderchog y gyfrol yw'r un ar dudalen 41 a dynnwyd o Fwlch Meibion Dafydd uwchben Brogynin gyda bryniau Elerch dan eira ar y gorwel.

Mae John Bollard yn gyfieithydd profiadol a safonol ac mae graen ar ei gyfieithiadau o gerddi Dafydd ac ar y nodiadau ar y cerddi yng nghefn y gyfrol. (Byddai'n haws i'r darllenydd gyplysu'r cerddi â'r nodiadau, fodd bynnag, pe bai'r cerddi wedi eu rhifo, ond bach o anhwylustod yw hyn.) Er mor gymeradwy yw ysgolheictod John Bollard, fodd bynnag, mae'n anorfod mai lluniau ysblennydd Anthony Griffiths a fydd yn aros yn y cof. Mae'r gynghanedd rhwng y gair a'r llun yn aml yn drawiadol iawn: mae artistri'r llun o'r tonnau ar foryd Dyfi (t. 39), er enghraifft, yn gymar cofiadwy i gywydd Dafydd 'Y Don ar Afon Dyfi'. Annisgwyl yw'r llun ar dudalen 91 y dywedir wrthym yn rhagymadrodd y gyfrol ei fod yn 'olion o hen dŷ a all fod, o bosibl, yn Gwernyclepa, llys Ifor Hael' ym Masaleg yng Ngwent, adfail a ganfu Anthony Griffiths ar ei sgawt ffotograffyddol. Wele wirio geiriau bardd arall o Geredigion, 'Llys Ifor Hael, gwael yw'r gwedd': mieri sydd yma lle gynt bu mawredd.

Dyma gyfrol i'w chroesawu. Fe ddenodd Dafydd ap Gwilym sylw draw yn Massachusetts: gobeithio y ceir darllenwyr i'r gyfrol ym mro'r bardd ei hunan.

**GRUFFYDD ALED WILLIAMS**

---


Geraint Davies *Diawl Bach Lwcus: atgofion drwy Ganeuon*. Gwasg Carreg Gwalch, 2019 £8.50 t.150

Daw'r diweddaraf yn y gyfres Atgofion drwy Ganeuon gan Geraint Davies, aelod a chyfansoddwr i rai o grwpiau mwyaf Cymru dros y degawdau – Hergest a Mynediad am Ddim yn benodol – ac eraill nad yw eu henwau mor gyfarwydd. Ef hefyd yw cyfansoddwr y gân 'Hei Mr Urdd', ond roedd Geraint hefyd yn adnabyddus fel un o gynhyrchwyr amlycaf Radio Cymru (neu BBC Radio Cymru fel mae'n gwarafun fod rhaid ei alw bellach ...).

Mae Geraint yn llwyddo i wneud y gorau o fformat y gyfres Atgofion, gyda chaneuon sy'n eistedd yn daclus ar gyfnodau penodol yn ei fywyd. Mae'n dechrau gyda'i blentyndod yn Llanymddyfri cyn symud i Abertawe, ac mae'n amlwg i'r ffaith ei fod yn un o blant y Mans dreiddio i'w isymwybod; roedd yn un o fyfyrwyr prin y brifysgol na fyddai'n cyffwrdd peint (ond roedd rheswm arall ar ben y fagwraeth grefyddol am hynny).

Cyn hyn i gyd, daw ei ddirmyg amlwg at yr ysgol uwchradd Saesneg oedd rhaid ei mynychu, a'i anghrediniaeth at y ffaith ei fod, tua diwedd y cyfnod, wedi darganfod fod nifer fawr o'r athrawon yn siaradwyr Cymraeg pybyr y tu allan i'r ysgol. Mae'r anghrediniaeth honno'n parhau.

Er y teitl, mae cyfnodau lle cawn adnabod adegau o wewyr ym mywyd Geraint, megis marwolaeth ei dad, ac yntau dal yn ddyn ifanc. Cawn ddisgrifiad moel o sut y bu i Geraint golli ei grefydd, proses a ddechreuodd wedi ymateb y capel




i'r sefyllfa yr oedd ei deulu ifanc ynddo. Ond cawn ddigonedd o bytiau doniol iawn, er enghraifft pan fu i swyddog weiddi sgrechian ar Dewi Pws, o bawb, 'Ry'ch chi'n oedolyn! Mae ganddoch chi gyfrifoldeb!'

Ffaith fach ddifyr oedd clywed cadarnhad o'r si am Glwb Cinio'r M4, sef ciwed o sêr y saithdegau sy'n cwrdd yn fisol am ginio rhywle gerllaw coridor y drafford, yn cynnwys Cleif Harpwood ac Endaf Emlyn. Mae'n gyfrol yn llawn o ffeithiau bach fel hyn, ynghyd â straeon difyr am ei anturiaethau, a gwirioneddau megis y sylw yma ar bob grŵp sy'n parhau am flynyddoedd: 'Y gystadleuaeth fwya yw'r fersiwn iau ohonoch chi'ch hun'. Mae'r ffaith fod Geraint ei hun yn cydnabod nad yw'n gwybod beth roedd yn ceisio ei ddweud mewn un pennill yn ei gân gyfarwydd "Ugain Mlynedd yn Ôl" yn enghraifft arall o'i ddigrifwch.

Pleserus drwyddo yw'r darllen, ac mae'n ymdebygu i sgwrs ffwrdd-â-hi blaen a gonest yn aml iawn. Mae agosatrwydd, heb sentimentaleiddio'n ormodol, yn treiddio trwy Diawl Bach Lwcus, ac mae'r darllenydd yn sicr fod yr awdur yn ymddiried ynddo drwy rannu ei gyfrinachau.

**HEFIN JONES**

Adolygiad oddi ar *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

Bu Geraint yn byw fel myfyriwr yn y Borth ac yno ysgrifennwyd y gân Glan Ceri – ac ar ôl priodi bu ef a Sian ei wraig yn byw ym Maesyrefail, Penrhyn-coch cyn symud o Geredigion. (Gol.)

# Ysgol Penrhyn-coch

**Dr. Beic a Beic Smwddi**
Daeth Dr. Beic i'r ysgol er mwyn gweld ein beiciau a'u gwella os oedd angen. Hefyd, cawsom y pleser o gael beic smwddi yn yr ysgol. Y disgyblion oedd yn paratoi y cynhwysion ac yna yn gorfod gweithio'n galed drwy seiclo er mwyn creu digon o drydan i'r cymysgydd weithio er mwyn creu smwddi blasus. Diolch i Sioned SUSTRANS a Mr. Shepherd am drefnu.



**Sioe Asiantaeth Safonau Bwyd**
Am wledd! Sioe 'Môr Ladron a'r Ffa Ffiaidd' gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ddaeth i'n diddanu a chynnal gweithgareddau rhyngweithiol di-ri yn ymwneud â hylendid bwyd. Diolch iddynt am ddod.





**Gala Nofio'r Urdd**
Cynhaliwyd gala nofio'r Urdd ym mhwll nofio Canolfan Chwaraeon Plas-crug. Da iawn i'r plant a gymerodd ran.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Penderfynodd y Cyngor Ysgol eleni ar ddiwrnod Plant Mewn Angen i bawb cael cyfle i wisgo fel eu harwyr. Roedd ymdrechion y plant yn wych! Yn ystod y prynhawn fe wnaethant gynnal amryw o stondinau e.e. cacennau, tombola, breichledau allan o fandiau loom a.y.b. Da iawn i'r Cyngor Ysgol am godi £55.49 tuag at achos da!

**Sgiliau Syrcas**
Daeth Rhydian - Swyddog Cynorthwyol Urdd Ceredigion - atom i gynnal sesiwn





dysgu sgiliau syrcas gan amrywio o jyglo i droelli platiau ar ffyn. Roedd pawb yn wên o glust i glust wrth ymarfer eu sgiliau newydd. Am hwyl! Diolch Rhydian.

**Ffilm**
Trefnwyd noson o wylio ffilmiau neu rhaglenni Cymraeg yn ein clybiau Urdd yn ddiweddar fel rhan o'n gwaith gyda'r Siarter Iaith. Mwynhaodd y Cyfnod Sylfaen y ffilm 'Siôn Blewyn Coch' a Chyfnod Allweddol 2 amryw o raglenni Cymraeg megis Henri Helynt.

**Coginio**
Diolch i Miss Cathy am ddod i ddysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen sut i addurno bisgedi ar gyfer y Nadolig. Rwy'n siŵr bod eich rhieni yn edrych ymlaen i chi fynd ati adre ar gyfer yr ŵyl!



**Hoci**
Llongyfarchiadau ar fuddugoliaeth tîm hoci Penrhyn yng nghynghrair A Hoci Ysgolion Cylch Aberystwyth eleni. Da iawn hefyd am chwarae'n dda yn y twrnamaint diwedd





tymor.

Da iawn i dîm hoci Bro Dafydd am gyrraedd y rownd gyn-derfynol yn nhwrnamaint diwedd tymor cynghrair B Ysgolion Cylch Aberystwyth.

Diolch i Miss Cory am ei hyfforddiant penigamp!

**Ffair Aeaf Amaethyddol Frenhinol Cymru**
Llongyfarchiadau calonnog i Mabli Blwyddyn 1 ar ei buddugoliaeth yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd gyda'i Seren Nadolig yng nghystadleuaeth celf a chrefft.




**Ffair Nadolig Christkindlmarkt**
Ymunwch â ni ar gyfer ein Ffair Nadolig Christkindlmarkt ar nos Iau y 12fed o Ragfyr 2019 am 6:00y.h. Dewch i wneud ychydig o siopa Nadolig yn y stondinau diri. Croeso gynnes i bawb!

Cofiwch gael cip ar ein gwefan *www.penrhyncoch.ceredigion.sch.uk* am fwy o wybodaeth neu dilynwch ni ar drydar @ YsgPenrhynCoch.

# Ysgol Craig yr Wylfa

**Ffair Aeaf**
Bu plant Clwb Cŵl yn brysur iawn yn paratoi eitemau pert iawn ar gyfer cystadleuaeth Celf a Chrefft yn y Ffair Aeaf eleni eto. Roedd eich eitemau yn werth eich gweld yna! Da iawn i bawb a wnaeth gystadlu.

**'Sialens Siocled'**
Daeth person o Brifysgol Aberystwyth allan i wneud arbrawf, 'Sialens Siocled' gyda phlant Cyfnod Allweddol 2. Roeddent wedi mwynhau cynnal yr arbrawf gyda siocled ac i weld y canlyniad – diddorol!

**Ffair Nadolig Elusennol Cymuned y Borth**
Cynhaliwyd Ffair Nadolig Elusennol ar ddydd Sadwrn ar ddechrau mis Rhagfyr, yn y Borth. Roedd gan yr Ysgol a'r Cylch Meithrin stondin yna. Diolch i bawb a gyfrannodd eitemau a'i hamser i fod ar y stondin.

**Canu, canu, canu!**
Un prynhawn, aeth yr Ysgol gyfan lawr i'r neuadd i ganu caneuon Nadoligaidd i'r Henoed. Roedd eu lleisiau swynol yn llanw'r neuadd ac yn amlwg roedd yr henoed yn mwynhau gwrando arnoch. Cafwyd croeso cynnes wrthynt, a diolch am y diod a chacennau blasus ar ôl y canu! Bore Llun, 9fed o Ragfyr, aeth yr Ysgol gyfan i ganu carolau a chaneuon Nadoligaidd ym Morrisons. Codwyd swm hael iawn, felly diolch i phawb a gyfrannodd yna.

**Bron yn 'Ddolig!**
Dymuna pawb o Ysgol Craig yr Wylfa Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y Tincer!






# CYFEILLION Y TINCER

## Ffurflen Gais Swyddogol i Ymuno â'r Clwb

ENW LLAWN ..............................

CYFEIRIAD ..............................

..............................

CÔD POST .............................. RHIF FFÔN ..............................

**Taliadau** - Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

Arian neu siec ☐ Archeb banc ☐

**Datganiad**
Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rhif.
Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer. Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

Llofnod ..............................

Dyddiad ..............................

# CYSTADLEUAETH STORI FER CARA

Annwyl ddarllenwyr,
Oes gennych chi stori yn llechu yn eich meddwl ac ydych chi'n ysu am ei sgwennu ar bapur? Wel, dyma'ch cyfle chi!

Mae cylchgrawn Cara yn cynnal cystadleuaeth stori fer, ar y testun Adra / Adre / Cartref.

Mae cyfle i chi ennill £100 i'w wario ar wefan www.adrahome.com a chael eich stori wedi ei chyhoeddi yn y cylchgrawn. Y beirniad yw'r awdur poblogaidd Manon Steffan Ros, a'r dyddiad cau yw Diwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2020.

Mae'r manylion llawn, ynghyd â'r ffurflen gais, yn rhifyn gaeaf Cara, sydd ar gael yn y siopau nawr, ac ar ein gwefan www.cara.cymru. Croeso i unrhyw un roi cynnig arni!

Neu beth am brynu tanysgrifiad 1, 2, 3 neu 4 blynedd i ffrind neu aelod o'r teulu fel anrheg Nadolig gwahanol eleni? Fe gewch chi gerdyn Nadolig unigryw Cara a chopi o'r cylchgrawn drwy'r post.

Diolch o galon am eich cefnogaeth yn 2019. Mae Cara yn edrych ymlaen at ddegawd newydd, gyffrous!

Meinir ac Efa, Tîm Cara

# Ysgol Rhydypennau

**Plant Mewn Angen.**
Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 15eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol a disgyblion blwyddyn 6 yn gyfrifol am drefnu stondinau a nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Diolch yn fawr i bawb am brynu a gwerthu mor awchus yn ystod y prynhawn, gan helpu i godi'r swm anrhydeddus o £572.13 Ardderchog!

**Gala'r Urdd**
Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol iawn yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i orffen yn y tri cyntaf; Tîm Cyfnewid Amrywiol Merched blwyddyn 4-2il-Lili Myrddin, Gwenno Jones, Poppie Haynes a Mary Megally; Gari Raggett blwyddyn 4-2il (broga) a Noa Elias bl 6-1af (Pili Pala) a 1af (Cymysg Unigol). Gan fod Noa yn fuddugol yn ei ddwy ras, mi fydd yn cynrychioli'r Sir yng ngala Cenedlaethol yr Urdd lawr yn y Brifddinas yn y flwyddyn newydd. Pob hwyl iddo.

**Ymweliadau**
Ar y 21ain o Dachwedd fe aeth plant blwyddyn 6 i weld perfformiad o 'Sister Act' yn Ysgol Uwchradd Pen-glais. Cafwyd prynhawn difyr iawn a braf oedd gweld ambell cyn ddisgybl yn actio a chanu ar y llwyfan yn ystod y perfformiad.
Fe aeth plant y Meithrin a'r Derbyn ar daith mewn bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd Coedwig Gogerddan. Yn y goedwig, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

**Hoci**
Mae tîm hoci A a B yr ysgol wedi mwynhau tymor neilltuol o dda ar feysydd astro'r brifysgol. Mi fydd chwaraewyr y tîm A yn derbyn medalau cyn hir am eu gorchestion gwych yn y gynghrair. Yn ychwanegol i hyn, fe lwyddodd y ddau dîm gyrraedd y rownd gyn derfynol yng nghystadleuaeth y cwpan. Diolch yn fawr iawn i'r holl chwaraewyr am eu hymroddiad dros y tymor yn enwedig am fynychu'r hyfforddiant wythnosol mewn pob math o dywydd! Diolch arbennig hefyd i Miss Angharad Edwards a Mr Euryl Rees am eu cefnogaeth yn ystod y tymor.

**Clwb Cant Rhagfyr**
Dyma'r canlyniad:
1af -£50- 14 Sara Mitchell.
2il-£30-65 Neil Parr-Davies
3ydd-£20-33 Beca Davies.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Mwynhau yn y Goedwig


Tîm Hoci A


Tîm Hoci B


Diwrnod Plant Mewn Angen.


Nofwyr dawnus-Mary, Lili, Poppie, Gwenno a Noa (Gari yn absennol o'r llun).



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Tylino Thai Trefechan
(Thai Massage)
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Ysgol Pen-llwyn



**Gala'r Urdd**
Aeth sawl disgybl i nofio ym Mhlas-crug i gystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd. Cynrychiolodd y plant yr Ysgol yn wych ac wedi trio eu gorau glas. Cafodd nifer ohonynt hwyl ar y nofio gydag ambell un yn llwyddo yn eu ras.

**Plant Mewn Angen**
Cawsom ddiwrnod lliwgar iawn yn gwisgo i fyny mewn lliwiau smotiau Pudsey i godi arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen. Cafodd y plant gyfle i gystadlu mewn cystadleuaeth gwisgo Tedi. Diolch i'r *Cambrian News* am feirniadu'r tedi buddugol. Llongyfarchiadau i Erin Ellis-Barr ac Erin Williams!!

**Pontio Blwyddyn 6**
Cafodd Blwyddyn 6 wahoddiad gan Ysgol Penweddig i dreulio diwrnod yn yr Ysgol. Er gwaetha'r nerfau, cawsom ddiwrnod difyr a blas o drefn dydd Ysgol Uwchradd.

**Casgliad Bag2School**
Diolch i bawb yn y gymuned am gyfrannu tuag at y casgliad Bag2School. Cawsom siec o £73 am ein rhoddion.

**Gwyddoniaeth**
Yr hanner tymor yma, daeth Sioned atom gyda'r beic smwddi. Cafodd y plant gyfle i greu smwddi ffrwythau eu hunain gan ddefnyddio egni'r corff. Dysgwyd fod angen cyhyrau cryf i weithio'r beic. Chwarae teg roedd y smwddis yn flasus iawn!

**Canu i'r Cylch Meithrin**
Braf oedd croesawu plant a staff y Cylch Meithrin i wrando arnom yn canu ein caneuon Nadolig cyn y Sioe. Ar ddiwedd y sesiwn cawsom sesiwn canu ar y cyd.

**Gofod**
Wedi pennu ein thema Ar y Bêl, teithion ni i'r Gofod ar gyfer thema nesaf y Cyfnod Sylfaen. Roedd amrywiaeth o weithgareddau yn seiliedig ar storïau am y Gofod a storïau diddorol am estron yn cyrraedd yr ardal! Da iawn blantos... ymlaen at y Nadolig nesaf!

**Cynrig Cythreulig**
Mae corrach Siôn Corn Cynrig Cythreulig wedi cyrraedd yr Ysgol eleni eto. Mae'r plant wrth eu boddau yn chwilio'r drygioni mae fe wedi bod wrthi'n gwneud pob bore.





*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

*Crefftau Pennau – oriau agor*
**Rhag 23** – 10-5
**24** 10-2
(bwydlen gyfyngedig)
**Ar gau 25/12-5/1**
**Ion 6** - 10-5

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# Tasg y Tincer

Diolch o galon i bawb fu'n lliwio llun Pydsi yr arth mis diwetha – dyma'r enwau: Caio Mason Lewis, Tal-y-bont; Carian a Iestyn Evans, y Borth; Llew a Heledd Rees, Rhydyfelin, Aberystwyth; Noah Fox, Llanilar; Megan Haf ac Anna Jên Dunne. Roedd eich lluniau'n hyfryd, ac yn gwneud i mi wenu! Dy enw di, Llew, ddaeth allan o'r het yn gynta'r tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Mae un dyddiad pwysig iawn newydd fod, sef 11 Rhagfyr. Ar y diwrnod arbennig hwnnw ry'n ni'n cofio am dywysog olaf Cymru, Llywelyn ap Gruffudd, neu Llywelyn Ein Llyw Olaf. Yn ôl yr hanes, ar 11 Rhagfyr 1282, cafodd Llywelyn ei ladd gan filwyr brenin Lloegr, Edward I, ger Llanfair-ym-Muallt ym Mhowys. Roedd Llywelyn yn arweinydd dewr ac roedd ganddo filoedd o filwyr o bob rhan o Gymru yn ei fyddin – mae'n anodd dychmygu'r peth! Falle eich bod wedi gweld y gofeb yng Nghilmeri – beth am fynd yno yn y gwanwyn?



**Llew**

Mae'r Nadolig yn gyfnod cyngerdd, sioe a pharti, wrth gwrs, a chyfnod gwisgo eich siwmper arbennig! Ydech chi wedi bod yn dysgu carolau, ac a oes gennych chi hoff un? Dwi'n hoff iawn o ganu carolau! Ac mae'n siŵr bod y goeden Nadolig yn y tŷ a'r ysgol ers tro bellach, ac yn werth ei gweld! Y mis hwn, beth am liwio llun y plant wrthi'n canu carolau?

Anfonwch eich lluniau i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 4 Ionawr. Nadolig Llawen i chi i gyd, mwyhewch eich gwyliau, a wela i chi yn 2020!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**


## Cronfa Eleri

**Blwyddyn 2019 – dros £19,775 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 15fed 2020**

Amcanion Cronfa Eleri

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

Eirian Reynolds, Tech. S.P.

**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant

**01970 820124**
**07709 505741**

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**

Perchennog: Lawrence Kelly

**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**

**Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**

**01970 828312**

**JONATHAN LEWIS**

Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260

**BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH**


ISSN 0963-925X

*Rhif 424 | Rhagfyr 2019*